

Regulators' Alliance for Progressing
Infrastructure Development

Ionawr 2022



Penderfyniad terfynol gât un safonol ar gyfer trosglwyddiad o Afon Hafren i Afon Tafwys



Cynnwys

1.	Cyflwyniad	3
2.	Crynodeb o'r datrysiad	4
3.	Crynodeb o'r sylwadau	6
3.1	Sylwadau a dderbyniwyd	6
3.2	Ein Hymateb	10
3.2.1	Tryloywder mewn amcangyfrifon cost	10
3.2.2	Asesiad Allbwn y gellir ei Ddefnyddio (DO) a data llif stocastig	10
3.2.3	Costio carbon	11
3.2.4	Cynllun y datrysiad	11
3.2.5	Budd adnoddau dŵr	12
3.2.6	Yr Amgylchedd	13
3.2.7	Caffael	13
3.2.8	Costau gât	13
4.	Crynodeb o asesiad y datrysiad	16
4.1	Dilyniant datrysiad a chyllid i gât dau	16
4.2	Tystiolaeth o wariant effeithlon	16
4.3	Ansawdd y cyflwyniad	17
4.3.1	Cynllun y Datrysiad	18
4.3.2	Gwerthusiad Cost a Budd	18
4.3.3	Rhaglen a Chynllunio	19

4.3.4	Yr Amgylchedd	19
4.3.5	Ansawdd Dŵr Yfed	20
4.3.6	Datganiad y Bwrdd a Sicrwydd	20
5.	Newidiadau arfaethedig i drefniadau partneriaid	21
6.	Camau gweithredu ac argymhellion	22
7.	Gweithgareddau gât dau	23
8.	Cymhellion ar gyfer gât dau	24
	Atodiad: Camau Gweithredu ac Argymhellion	25

1. Cyflwyniad

Diben y cyhoeddiad hwn yw nodi ein penderfyniad twrfynol mewn perthynas â throsglwyddiad Afon Hafren i Afon Tafwys, datrysiad adnoddau dŵr rhanbarthol strategol a gyflwynwyd ar gyfer asesiad gât un safonol gan noddwyr y datrysiad Thames Water, Dŵr Hafren Trent ac United Utilities¹. Byddai'r datrysiad yn galluogi trosglwyddo cyflenwad o Afon Hafren i Afon Tafwys, gyda'r datrysiad yn ymchwilio dau lwybr posib, piblinell o Deerhurst i Culham, neu adfer Camlas Cotswold o Ddoc Caerloyw i Culham. Gellir cael rhagor o wybodaeth am gefndir a chyd-destun trosglwyddiad Afon Hafren i Afon Tafwys Thames Water, Dŵr Hafren Trent ac United Utilities yn nogfen cyhoeddiad trosglwyddiad Afon Hafren i Afon Tafwys wefannau [Thames Water](#)², [Dŵr Hafren Trent](#)³ ac [United Utilities](#)⁴.

Dylid darllen y cyhoeddiad hwn ar y cyd â'r llythyr penderfyniad terfynol a roddwyd i bob noddwr datrysiad. Cyhoeddwyd y ddogfen hon a'r llythyrau penderfyniad terfynol ar ein gwefan heddiw.

Goruchwyli'r y broses asesu gan RAPID, gyda mewnbwn gan y partneriaid sy'n rheoleiddwyr Ofwat, Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Arolygiaeth Dŵr Yfed. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd ynghyd â Natural England a, pan fo datrysiad yn effeithio ar Gymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, wedi adolygu adrannau amgylcheddol y cyflwyniadau, ac maent wedi rhoi adborth i RAPID. Rhoddodd y Cyngor Defnyddwyr Dŵr fewnbwn i'r asesiad ynglŷn ag ymgysylltu â chwsmeriaid.

Cafodd noddwyr y datrysiad a phartïon eraill â diddordeb gyfle i ymateb i'r penderfyniad drafft yn ystod y cyfnod cyflwyno sylwadau, a ddilynodd gyhoeddiad penderfyniadau drafft ar 14 Medi 2021. Rydym wedi ystyried yr holl sylwadau perthnasol wrth wneud ein penderfyniad terfynol.

Hoffem ddiolch i Thames Water, Dŵr Hafren Trent ac United Utilities am y lefel yr ymgysylltu, cydweithredu ac arloesi y maent wedi'i ddangos yn ystod y cam hwn yn y broses gatiâu.

¹ Cyfeiriwyd ato ym mhenderfyniad terfynol PR19 fel "trosglwyddiad Afon Hafren i Afon Tafwys"

² [gate-one-submission-stt.pdf \(thameswater.co.uk\)](#)


³ [gate-1-submission-stt.pdf \(severntrent.com\)](#)

⁴ [preliminary-feasibility-assessment-inc.-glossary.pdf \(unitedutilities.com\)](#)

2. Crynodeb o'r datrysiad

Byddai datrysiad Trosglwyddiad Afon Hafren i Afon Tafwys (STT) yn trosglwyddo dŵr o Ogledd Orllewin a Chanolbarth Lloegr i Dde Ddwyrain Lloegr, trwy drosglwyddo dŵr o Afon Hafren i Afon Tafwys.

Ffigur 1 Sgematig datrysiad STT



Mae'r datrysiad yn cynnwys dau opsiwn ar gyfer y rhyng-gysylltydd i gysylltu Afon Hafren ac Afon Tafwys:

1. Opsiwn piblinell o Deerhurst i Culham wedi'i ystyried gyda gwahanol gapasiti o 300MI/d, 400MI/d, neu 500MI/d; ac
2. Opsiwn i adfer rhannau o Gamlesi Cotswold ac ychwanegiadau gyda phiblinellau a gorsafoedd pwmpio o Ddoc Caerloyw i Culham i ddarparu capasiti o 300MI/d.

Byddai hefyd angen seilwaith ychwanegol megis gwaith cyn-trin ar ben y biblinell yn Deerhurst neu ar ddiwedd Camlesi Cotswold yn Culham.

Gall y datrysiad drosglwyddo rhai elfennau llif heb gymorth o Afon Hafren, ond mae hefyd angen datrysiadau ategol i hybu'r cyflenwad dŵr i'w drosglwyddo o dan rhai amodau llif. Y datrysiadau ategol, sy'n cael eu datblygu fel datrysiadau annibynnol yn rhaglen RAPID, yw:

- Ffynonellau Traphont Ddŵr Efyrynwy ac United Utilities (mae'r rhain yn hwyluso y rhyddhau o Lyn Efyrynwy) - hyd at 180 MI/d;
- Ffynonellau Hafren Trent: Trwydded tynnu dŵr Mythe (15 MI/d) a Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Netheridge (35 MI/d) - hyd at 50 MI/d;
- Aildefnyddio Minworth - hyd at 115 MI/d.

3. Crynodeb o'r sylwadau

3.1 Sylwadau a dderbyniwyd

Rydym wedi derbyn y sylwadau canlynol sy'n berthnasol i drosglwyddiad Afon Hafren i Afon Tafwys.

Tabl 1 Crynodeb o'r sylwadau

Sylw gan	Crynodeb o'r sylw
Ymgynghoriaeth Colne Valley Fisheries	<p>Cynllun y Datrysiad Mae'r Ymgynghoriaeth yn cefnogi cynnydd mewn storio dŵr ym Masn Tafwys ond nid trosglwyddo dŵr crai rhwng basnau. Mae'r Ymgynghoriaeth yn pryderu y gallai trosglwyddo dŵr crai rhwng basnau arwain at golled net mewn dŵr rhwng y ddwy afon, gyda thebygolrwydd cynyddol o sychder yn effeithio ar y ddau ddalgylch ar yr un pryd, gan wneud unrhyw drosglwyddiad yn anghynnaladwy.</p> <p>Yr Amgylchedd Mae'r sylwadau'r Ymgynghoriaeth bod trosglwyddiadau dŵr rhwng basnau yn cyflwyno prif lwybrau ar gyfer goresgyniad gan rywogaethau anffordorol i ddŵr croyw, gan roi cyswllt uniongyrchol ar gyfer ymlediad rhywogaethau ymledol rhwng dalgylchoedd a oedd yn cyn hyn wedi'u hynysu. Efallai y bydd cynefin y dalgylch derbyn yn addasu fel ei fod yn dod yn fwy ffafriol ar gyfer sefydlu rhywogaethau goresgynnol newydd. Archwiliodd astudiaethau effaith trosglwyddo dŵr rhwng basnau ar Afon Hafren ac Afon Tafwys a chanfod bod risg ddifrifol o ledaenu rhywogaethau ymhellach, yn enwedig cregyn gleision cwaga sy'n fygythiad enfawr i'r amgylchedd ond sydd hefyd yn un o'r prif rywogaethau goresgynnol a allai effeithio'n negyddol ar y diwydiant dŵr.</p>
Grŵp yn Erbyn Datblygu Cronfeydd Dŵr (GARD)	<p>Tryloywder amcangyfrifon cost Mae GARD yn dyfynnu pryderon ynghylch diffyg tryloywder mewn amcangyfrifon costau datrysiadau yn gyffredinol, gan ofyn am fanylion pellach i'r lefel a gynhwyswyd yn adroddiad gât un cronfa ddŵr Fens.</p> <p>Allbwn y gellir ei ddefnyddio a data llif stocastig Mae GARD hefyd yn poeni am ddiffyg tryloywder mewn asesiadau allbwn y gellir ei ddefnyddio (DO), gan awgrymu y dylid sicrhau bod y dystiolaeth ar gael i graffu ar dybiaethau, data ac allbynnau'r modelu.</p> <p>Mae GARD hefyd yn siomedig nad oes gan adroddiad gât un STT unrhyw dablau o'r costau a'r allbynnau y gellir eu defnyddio ar</p>

gyfer pob cam o'r datblygiad. Mae GARD yn cynnig bod RAPID yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r cwmnïau dŵr ddarparu'r wybodaeth hon mewn pryd i'w chynnwys yn adroddiadau argymhellion RAPID ar gyfer Ofwat ac ar gyfer ei hadolygu gan randdeiliaid yn y 'cyfnod sylwadau'.

Mae gan GARD bryderon ynglŷn â dibynadwyedd data llif afon stocastig, megis: data tywydd anghywir ar gyfer dalgylchoedd lle mai dŵr daear sydd i'w gael yn bennaf; y cyfnod sylfaen tywydd stocastigsydd sydd ddim yn cynnwys unrhyw sychder hir; y cyfnod sylfaen ac eithrio'r tywydd ers 1997; a'r gwahaniaeth daearegol mewn dalgylchoedd nad ydynt yn cael eu hadlewyrchu yn y llifoedd a gynhrychir gan Afon Tafwys ac Afon Hafren.

Costio carbon

Mae GARD yn honni bod adroddiadau gât un yn wael ar bwnc costio carbon opsiynau strategol a bod ganddynt ddiffygion yn y data a gyflwynir.

Datrysiadau Ategol a chyfnodedd

Mae GARD o'r farn ei bod yn ddiangen ac yn ddryslyd cael adroddiadau ar wahân ar gyfer Trosglwyddiad Afon Hafren i Afon Tafwys (STT) a'i datrysiadau ategol, sy'n golygu nad oes darlun clir o allbynnau cyffredinol y gellir eu defnyddio a chostau'r datrysiadau a'r is-opsiynau ac awgrymodd gyfuno'r rhain yn un datrysiad.

Mae GARD yn awgrymu y dylid ystyried cam cyntaf gwell ar gyfer cefnogaeth cyflenwi adnoddau dŵr, trwy gyfuno'r trosglwyddiad heb gymorth (cam 1) â Mythe (cam 2) a dod â rheoliad Efyrrwy (cam 3) i lefel sy'n gofyn am y datblygu leiaf posibl o ffynonellau newydd ar gyfer United Utilities. Gellid gweithredu hyn yn gyflym a byddai'n 'prynu amser' tra gellir arsylwi ar yr angen gwirioneddol yn y dyfodol ac effeithiau newid yn yr hinsawdd, a hwyluso rhyddhad cynnar o ordynnu dŵr o nentydd sialc.

Cynllun y Datrysiad

Mae GARD yn cefnogi'r defnydd o gamlas Cotswold os gellir dangos bod trosglwyddiad 300 MI/d yn ddigonol a bod y gamlas yn opsiwn gwell na throsglwyddo trwy'r biblinell o Deerhurst.

Buddion Adnoddau Dŵr

Mae GARD yn cytuno â throsglwyddo heb gymorth fel cam cyntaf (cyn camau cymorth o Mythe a chronfa ddŵr Efyrrwy). Ond mae'n amheus o allbwn y gellir ei ddefnyddio o ddim ond 80 MI/d ar gyfer y trosglwyddiad heb gymorth, a hoffai weld manylion llawn allbwn y model a greodd y ffigur hwn.

Mae GARD yn falch o weld trefniant tynnu dŵr rheoledig 'rhoi a chymryd' y cytunwyd arno gan Asiantaeth yr Amgylchedd a Chyfoeth Naturiol Cymru yn Deerhurst, ac yn cymeradwyo'r dull synnwyr cyffredin hwn. Ers ymchwiliadau WRMP19 i'r STT, deallir bod cyfanswm y llif cyn diffodd yn Deerhurst wedi cynyddu o 1850 MI/d i 2560 MI/d, sy'n debygol o fod wedi lleihau allbwn y gellir ei ddefnyddio o opsiynau STT yn sylweddol, ond nid oes sôn am y wybodaeth hollbwysig hon yn adroddiad gât un ac ni ddarperir tystiolaeth i gyfiawnhau'r llif cyn diffodd newydd. O ystyried arwyddocâd llif cyn diffodd Deerhurst ar gyfer allbwn y gellir ei ddefnyddio ac effeithiolrwydd cost opsiynau STT, dylai RAPID ei gwneud yn ofynnol i lif cyn diffodd Deerhurst fod yn destun ymchwiliad trylwyr a thryloyw yn gât dau. Dylai'r ymchwiliad hwn ystyried amlder a hyd y tyniadau ar gyfer yr STT yn Deerhurst ac ystyried amrywiadau yn y cyfyngiadau tynnu dŵr, o bosibl yn dymhorol, a allai ganiatáu i fwy o ddŵr gael ei gymryd yn Deerhurst heb effeithiau annerbyniol. Dylai RAPID ei gwneud hi'n ofynnol i'r ymchwiliad hwn gael ei gynnal mewn cydweithrediad â'r tîm ymchwilio STT presennol, fel bod goblygiadau newid y llif cyn diffodd yn cael eu deall yn llawn gan yr ecolegwyr sy'n ceisio amddiffyn aber Afon Hafren a'r peirianwyr sy'n ceisio sicrhau'r budd mwyaf o opsiynau STT.

Roedd GARD yn anghytuno â chyfyngiadau o 75 MI/d o ollyngiadau uniongyrchol i Afon Efyrynwy (a fyddai hefyd yn effeithio ar is-opsiynau capasiti Traphont Ddŵr Efyrynwy), a osodwyd oherwydd yr effaith ar amrediad eogiaid ac eogiaid ifanc. Mae GARD wedi darparu ei ddadansoddiad llif ei hun i gefnogi ei gais y dylid ystyried rhyddhau dŵr hyd at 400 MI/d yn uniongyrchol i mewn i Afon Efyrynwy.

Roedd GARD yn anghytuno y dylid cyfyngu ar ollyngiadau Llyn Efyrynwy (ac felly capasiti gwrthbwysu o United Utilities Sources) i 180 MI/d, gan fod hyn yn tybio bod y gronfa ddŵr yn cael ei gweithredu fel cyflenwad uniongyrchol parhaus. Mae GARD yn nodi, gan fod angen rhyddhau dŵr am ran o'r flwyddyn yn unig, hyd yn oed mewn cyfnod o sychder difrifol, mae gan gronfa Efyrynwy y gallu storio i gefnogi rhyddhau dŵr llawer mwy na 180 MI/d. Mae GARD yn gofyn i RAPID argymhell bod gollyngiadau o hyd at 400 MI/d yn cael eu hystyried y gât dau.

Roedd GARD yn deall bod colledion rheoleiddio o 20% rhwng argae Efyrynwy a Deerhurst wedi'u rhagdybio, ond bydd ymchwiliadau i'r colledion yn parhau i gât dau. Mae GARD yn credu bod cofnodion llif hanesyddol yn dangos llawer llai nag 20%, yn enwedig yn ystod rhyddhau dŵr am gyfnod hir y bydd ei angen mewn cyfnodau o sychder sy'n pennu'r allbwn y gellir ei ddefnyddio yn y cynllun.

	<p>Cred GARD y dylai gwaith colledion yn y dyfodol gynnwys: Dull ‘cydbwysedd dŵr’ ar gyfer asesu’r colledion; Asesiad o’r colledion gostyngedig a fydd yn parhau yn ystod sychder hir; Asesiad o’r enillion yn llif Afon Hafren oherwydd bod dŵr yn llifo o’r glannau yn ôl i’r afon ar ôl i’r rheoliad ddod i ben; Profiad o golledion rheoleiddio mewn cynlluniau rheoleiddio mawr eraill.</p> <p>Caffael Nid oes barn gyson ynglŷn â sut y dylid caffael, perchnogi a gweithredu’r trosglwyddiad a’i gydrannau. Gellid sefydlu gweithgor i ystyried yr holl opsiynau caffael, perchnogaeth a gweithredu ar gyfer y trosglwyddiad ac argymell dull unedig.</p>
<p>Cyngor Sir Swydd Rhydychen</p>	<p>Cynllun y Datrysiad Mae’r Cyngor Sir yn ffafrio defnyddio seilwaith presennol neu wedi’i adnewyddu, fel trosglwyddiadau camlas, neu seilwaith sydd o dan y ddaear, fel pibellau. Dylai RAPID ofyn i asesiadau nodi effeithiau’r gwahanol opsiynau ar boblogaethau lleol, yn ystod y gwaith adeiladu ac wedi hynny.</p> <p>Yr Amgylchedd Mae’r Cyngor Sir yn pryderu am drafnidiaeth barhaol, risg llifogydd, effeithiau ar fioamrywiaeth, treftadaeth, tirwedd, ac effeithiau adeiladu dros dro opsiynau sy’n effeithio ar Swydd Rhydychen. Mae’n cytuno bod angen asesiad pellach o gostau a buddion cymdeithasol, economaidd ac o ran amwynderau</p> <p>Budd Adnoddau Dŵr Mae’r trosglwyddiad yn un o’r opsiynau mwyaf drud. Dim ond gyda dealltwriaeth lawn o’r angen a ragwelir am ddŵr ychwanegol a’r arbedion dŵr y gellir eu cyflawni gyntaf trwy lai o ollyngiadau pibellau, arloesi a llai o ddefnydd dŵr y dylid mynd ar drywydd unrhyw opsiwn strategol.</p>
<p>Cyngor Dosbarth De Swydd Rhydychen</p>	<p>Yr Amgylchedd Gall piblinell arfaethedig Afon Hafren i Afon Tafwys gynnwys pwmpio dŵr i fyny llethr a allai olygu llawer o ynni – dylid asesu ôl troed carbon pob cynllun a’i wneud yn gyhoeddus.</p> <p>Gallai fod effaith amgylcheddol sylweddol. Nid yw’n glir chwaith a yw’n bosibl i’r datrysiad hwn sicrhau enillion bioamrywiaeth net. Ac eto, nodir bod y prosiect hwn wedi cael symud ymlaen i’r gât nesaf. Dylai’r rheoleiddiwr ofyn am wybodaeth ychwanegol cyn symud y datrysiad ymlaen i’r gât nesaf.</p>
<p>United Utilities, Hafren Trent, a Thames Water</p>	<p>Costau Mae cysoni gwariant gât un wedi arwain at ostyngiad gan 25% yn y cyfanswm ar gyfer rheoli rhaglenni a ffrydiau gwaith teiran. Cyfanswm o ostyngiad gwerth 12.5% yng nghostau gât un.</p> <p>Rhoddodd y tîm datrysiadau fanylion pellach am y gweithgareddau Teiran a Rheoli Prosiect.</p>

Cyngor Dosbarth Vale of White Horse	Yr Amgylchedd Dylai gwybodaeth am ôl troed carbon y datrysiad hwn gan ei gwneud yn gyhoeddus. Gallai fod effaith amgylcheddol sylweddol o'r trosglwyddiad. Nid yw'n glir a yw'n bosibl i'r datrysiad hwn sicrhau enillion bioamrywiaeth net. Ac eto, nodir bod y prosiect hwn wedi cael symud ymlaen i'r gât nesaf. Gallai fod yn fwy priodol i'r rheoleiddiwr ofyn am wybodaeth ychwanegol cyn symud i'r gât nesaf.
--	---

3.2 Ein Hymateb

Rydym wedi ystyried y sylwadau yn ein penderfyniadau terfynol ac wedi nodi isod ein hymateb i'r pwyntiau a'r materion allweddol a godwyd.

3.2.1 Tryloywder mewn amcangyfrifon cost

Nid ydym yn teimlo bod gwybodaeth am gostau datrysiad yn berthnasol i benderfyniadau gât un. Mae gât un yn pwynt gwirio a dyma'r cyfle cyntaf i wirio'r cynnydd a wnaed gan berchnogion datrysiadau ar ymchwiliadau a datblygu datrysiadau yn y broses gatiâu. Yn gât un, roedd disgwyl i'r holl ddatrysiadau symud i gât dau a pharhau i dderbyn cyllid wedi'i glustnodi oni bai bod rheswm clir pam na ddylent wneud hynny

Bydd costau datrysiadau yn cael eu hystyried ymhellach o gât dau ymlaen ac mewn cynlluniau rhanbarthol a chynlluniau rheoli adnoddau dŵr. Byddwn yn rhoi arweiniad i gwmnïau ar gyflwyno a chyhoeddi costau datrysiadau yn eu cyflwyniadau gât dau.

3.2.2 Asesiad Allbwn y gellir ei Ddefnyddio (DO) a data llif stocastig

Rydym o'r farn bod y gwaith a gwblhawyd ar yr asesiad DO yn ddigonol ar gyfer gât un. Bydd y cwmnïau dŵr yn parhau i ddatblygu'r datrysiadau a'r dystiolaeth o'u cwmpas. Darperir canllawiau ar ein disgwyliadau ar gyfer archwiliad manylach o allbwn y gellir ei ddefnyddio wrth gât dau. Mae'r defnydd o ddata llif stocastig yn adlewyrchu'r gofyniad i brofi sychderau sy'n fwy na'r rhai a welwyd yn y cofnod hanesyddol, megis digwyddiadau sychder gyda chyfnodau dychwelyd 1:500 mlynedd. Disgwylir i gynhyrchiad datrysiadau o ddata llif stocastig ddilyn Canllawiau Atodol Canllawiau Cynllunio Adnoddau Dŵr: Cynllunio i allu gwrthsefyll sychder 1 mewn 500 (Lloegr), a Chanllawiau Atodol: Stocasteg. Byddwn yn trosglwyddo'r pwyntiau penodol a godwyd i berchnogion datrysiadau i'w hystyried wrth iddynt ddatblygu eu hasesiadau allbwn y gellir ei ddefnyddio ymhellach.

3.2.3 Costio carbon

Roedd asesiad gât un o gyflwyniadau datrysiadau yn ystyried y ffaith y byddai asesiadau o oblygiadau carbon y datrysiad yn anochel yn cynnwys cryn dipyn o ansicrwydd o gofio cam datblygu'r datrysiad. Rydym o'r farn bod lefel y wybodaeth a gyflwynwyd ar garbon yn ddigonol ar gyfer gât un. Dylai datblygiad datrysiad i gât dau ddilyn y Canllawiau Cynllunio Adnoddau Dŵr ar gyfer adran 8.3.2 WRMP24 sy'n nodi disgwyliadau ar gyfer rhoi cyfrif am a lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr. Dylai'r cynllun ystyried; adeiladu dim, adeiladu llai, adeiladu clyfar ac adeiladu'n effeithlon trwy gydol datblygiad y datrysiad, gan wrthbwyso fel dewis olaf yn unig. Disgwyliwn i'r holl liniaru uniongyrchol gael ei gynnwys yng nghostau'r datrysiad. Dylai'r datrysiad hefyd gael ei ystyried gan y cwmni dŵr yn ei gynlluniau carbon ehangach.

Byddwn yn ei gwneud hi'n ofynnol i unrhyw atodiadau asesiad carbon gael eu cyhoeddi ochr yn ochr â'r cyflwyniad wrth gât dau.

3.2.4 Cynllun y datrysiad

Datrysiadau Ategol a chyfnodedd

Rydym wedi penderfynu y dylid parhau i ddatblygu datrysiadau ategol ar wahân i STT. Wrth i gynllunio adnoddau dŵr a'r broses gatiâu ddatblygu, gall y datrysiadau ategol hyn roi buddion gwytnwch i'w rhanbarthau eu hunain, i ddatrysiadau eraill neu i ranbarthau eraill y tu hwnt i'r rheini a wasanaethir gan y trosglwyddiad. Gallai cysylltu datblygiad datrysiadau ategol, a'u gallu i symud ymlaen trwy'r Broses Gatiâu, i STT yn unig, rwystro ymchwiliadau i'r cyfluniadau amgen hyn a'u buddion.

Rydym o'r farn y dylid penderfynu ar gyflwyniad datrysiadau ategol STT yn gyfnodol drwy asesiadau defnydd y datrysiadau o dan senarios sychder eithafol, newid yn yr hinsawdd a'r galw yn y dyfodol. Bydd RAPID yn nodi disgwyliadau ar gyfer asesiadau defnydd manwl yn ei ganllaw gât dau, ac mae wedi cynnwys camau gweithredu ac argymhellion penodol mewn perthynas â'r rhain yn argymhelliad 4. Mae hyn yn cynnwys ymgorffori cost a budd adnoddau dŵr datrysiadau ategol mewn penderfyniadau cyfnodedd.

Opsiynau datrysiad

Disgwyliwn i berchnogion y datrysiadau benderfynu pa opsiwn i'w symud ymlaen ymhellach wrth gât dau. Er mwyn sicrhau bod opsiynau'n cael eu dewis yn briodol wrth gât dau, mae RAPID yn disgwyl asesiadau gwerth gorau cynhwysfawr o opsiynau datrysiadau sy'n ystyried costau a buddion cymdeithasol (gan gynnwys amwynderau), yn ogystal â chostau a buddion amgylcheddol, adnoddau dŵr ac economaidd. Rhaid i asesiadau gwerth gorau hefyd ystyried camau adeiladu a gweithredol. Bydd hyn yn cael ei nodi yng nghanllawiau gât dau. Rydym

hefyd wedi gofyn am ffocws datrysiad penodol ar hyn trwy gam gweithredu 3 ac argymhelliad 3 yn yr Atodiad i'r ddogfen hon.

3.2.5 Budd adnoddau dŵr

Dewisir opsiynau isadeiledd fel rhan o gynlluniau rhanbarthol a WRMP. Mae'r cynlluniau hyn yn ystyried mesurau ochr y galw a mesurau ochr y cyflenwi fel rhan o'r dull trac deublyg tuag at adnoddau dŵr. Mae'r fframwaith cenedlaethol - a gyhoeddwyd gan Asiantaeth yr Amgylchedd yn 2020 - yn nodi disgwyliadau bod y diwydiant yn lleihau'r galw i oddeutu 110 litr y pen y dydd ac yn lleihau gollyngiadau gan 50% erbyn 2050. Hyd yn oed gyda'r gostyngiadau hyn yn y galw, bydd angen i'r sector fuddsoddi mewn seilwaith i wella'r gallu i wrthsefyll sychder, lleihau effaith tynnu dŵr ar yr amgylchedd, cyflenwi poblogaeth sy'n tyfu ac addasu i effeithiau hinsawdd.

Aseswyd bod cyfrifiad budd adnoddau dŵr y datrysiad yn ddigonol ar gyfer gât un. Bydd y cwmnïau dŵr yn parhau i ddatblygu'r modelu adnoddau dŵr a'r asesiadau enillion a thystiolaeth yn ymwneud â hwy; gan ystyried senarios sychder, newid yn yr hinsawdd, amgylcheddol a galw. Byddwn yn darparu canllaw ar gyfer ymchwiliadau manwl pellach i fudd adnoddau dŵr wrth gât dau. Rydym wedi cynnwys argymhelliad 4 yn y ddogfen hon i fonitro hyn. Mae perchnogion y datrysiad hefyd wedi nodi gweithgareddau gât dau i gynnal modelu adnoddau dŵr wedi'i ddiweddarau, sy'n cynnwys mireinio cyfrifiadau o fudd adnoddau heb gymorth Afon Hafren, a gwaith pellach yn benodol ar golledion Afon Hafren.

Mewn ymateb i sylw GARD y dylid ystyried rhyddhau o Efyrynwy sy'n fwy na 180 MI/d, datblygwyd galluoedd yr opsiynau a ystyriwyd yn y broses RAPID gan berchnogion datrysiadau gan ystyried dichonoldeb, asesiadau amgylcheddol ac argaeledd dŵr o dan derfynau trwydded tynnu dŵr, yn er mwyn symud ymlaen i ddarparu cynlluniau rheoli adnoddau dŵr yn WRMP19. Rydym yn disgwyl y byddai unrhyw opsiynau capasiti mwy yn cael eu nodi a'u hasesu trwy'r broses gynllunio ranbarthol a chwmni yn WRMP24 a bod diweddariad ar gapasiti opsiynau yn cael ei ddarparu wrth gât dau.

Mae'r cyfyngiadau rhyddhau 75MI/d i Afon Efyrynwy wedi'u gosod gan berchnogion y datrysiad, STT, yn seiliedig ar eu hymchwiliadau hyd yma, ac mae gwaith yn cael ei wneud ar gyfer gât dau i asesu effeithiau mewn cyfuniad rhyddhau STT, rhyddhau iawndal cronfa ddŵr a rhyddhau ar gyfer rheoleiddio Afon Hafren ar Afon Efyrynwy.

Mewn perthynas â darwasgiad amgylcheddol Deerhurst, adolygir amodau llif cyn diffodd (HoF) yn rheolaidd fel rhan o gylch strategaeth trwyddedu tynnu dŵr Asiantaeth yr Amgylchedd. Diweddarwyd HoF Deerhurst fel rhan o adolygiad strategaeth trwydded Tynnu Dŵr Coridor Afon Hafren ym mis Chwefror 2020 ac mae'n seiliedig ar y data gorau sydd ar gael a dealltwriaeth Asiantaeth yr Amgylchedd o anghenion ecolegol, ac felly nodweddion fel y cyfryw mewn ymchwiliadau STT. Disgwylir y diweddariad nesaf yn 2024 ond mae hyn yn ddarostyngedig i setiau data ac adolygiadau technegol newydd.

O ran risgiau gwytnwch y datrysiad i sychder cenedlaethol, mae RAPID hefyd wedi comisiynu prosiect modelu ar raddfa genedlaethol, sy'n ymchwilio i berfformiad datrysiadau RAPID yn erbyn sychder ar raddfa genedlaethol, a bydd yn adrodd ar hyn cyn gât dau.

3.2.6 Yr Amgylchedd

Effaith Amgylcheddol

Aseswyd bod asesiad amgylcheddol STT yn ddigonol ar gyfer gât un. Bydd y cwmnïau dŵr yn parhau i ddatblygu'r datrysiadau a'r dystiolaeth sy'n ymwneud â nhw, gan gynnwys effaith amgylcheddol a'r potensial i fodloni gofynion ar gyfer enillion net bioamrywiaeth. Byddwn yn darparu canllaw ar gyfer gwaith pellach wrth gât dau. Felly roedd yn briodol i STT symud ymlaen i gât dau, gyda cheisiadau am fonitro ac asesiadau amgylcheddol manylach i ymchwilio i'r ansicrwydd sy'n bodoli ar gyfer materion amgylcheddol. Rydym hefyd wedi nodi trwy gam gweithredu 6, yr angen i ymchwilio ymhellach i effaith amgylcheddol STT ar safleoedd dynodedig fel Aber Afon Hafren.

Rhywogaethau Anfroddol Ymledol (INNS)

Rydym yn gofyn, trwy ganllaw gât dau, bod y risg o INNS yn cael ei hymchwilio'n llawn, gan gynnwys defnyddio offeryn INNS yr Uned Werthuso Genedlaethol i nodi mesurau risg a lliniaru.

3.2.7 Caffael

Byddwn yn gofyn am ddarpariaeth rhagor o fanylion ar gaffael, perchnogaeth a gweithrediad y datrysiad wrth gât dau. Bydd RAPID yn nodi gofynion yn hyn o beth yng nghanllaw gât dau. Mae RAPID hefyd yn cyhoeddi dogfen ymgynghori a fydd yn cynnwys ystyried y dull ar gyfer caffael a strwythurau masnachol ac mae wedi sefydlu gweithgor masnachol sy'n edrych ar y dull ar gyfer caffael a threfniadau masnachol ar gyfer datrysiadau RAPID.

3.2.8 Costau gât

Yn ein penderfyniad drafft gwnaethom nodi dau faes lle roeddem o'r farn bod tystiolaeth a gyflwynwyd yn annigonol i gyfiawnhau gwariant effeithlon ac a ganiateir o fewn rhaglen waith gât un. Y rhain oedd costau rheoli a darparu rhaglen (£400,000), a chostau gweithgaredd cwmnïau teiran (£431,000), sy'n dod i gyfanswm o £831,000. Roeddem yn cydnabod bod cymhlethdod y datrysiad yn gofyn am ddwyter sylweddol o ran rheoli prosiect a rheoli rhwng cwmnïau. Fodd bynnag, nid oedd y dystiolaeth a ddarparwyd ar ffurf dadansoddiad o wariant yn ôl gweithgareddau yn y cyflwyniad, ac yn yr ymateb i ymholiad (STT005), yn ddigon manwl i ni dderbyn y gwariant fel un a ganiateir ac sy'n effeithlon. Felly rydym wedi penderfynu

gwrthod yr hawliad am y costau rheoli a chyflawni prosiect a gweithgaredd cwmnïau teiran, nes bod tystiolaeth yn cael ei darparu i gyfiawnhau rhan, neu'r cyfan, o'r hawliad a gyflwynwyd fel gweithgareddau perthnasol ac effeithlon ar gyfer datrysiad trosglwyddiad Afon Hafren i Afon Tafwys yn gât un.

Yn eu sylwadau ar y cyd, rhoddodd Dŵr Hafren Trent, Thames Water ac United Utilities fanylion pellach am y gweithgareddau a gynhaliwyd fel rhan o'r cwmni teiran a rheoli prosiectau. Darperir y prif weithgareddau yn nhabl 2 isod, ochr yn ochr â chyfran y gwariant. Mae'r sylwadau'n rhoi mwy o fanylion am y tasgau o dan bob un o'r prif weithgareddau yn Nhabl 2 ac mae hefyd yn rhoi cyfiawnhad dros y gwariant.

Tabl 2 Gweithgareddau Teiran a Rheoli Prosiect a ddarperir gan STT

Gweithgarwch Cwmni Teiran	Rhaniaid ymdrech amcangyfrifedig (%)
Symud	10%
Cyfarfodydd / galwadau sefydlog	10%
Goruchwyliaeth fasnachol a rhaglen	10%
Goruchwyliaeth dechnegol	30%
Rhanddeiliad	10%
Cefnogaeth traws gwmni / datrysiad	10%
Gweithgareddau mewn Cwmni	20%
Gweithgaredd Rheoli Prosiect	Rhaniaid ymdrech amcangyfrifedig (%)
Symud	10%
Gweithgareddau rheoli rhaglen a chefnogi rhaglenni	35%
Gweithgareddau masnachol a chaffael	15%
Technegol (Peirianneg, Adnoddau dŵr, System Amgylcheddol)	30%
Gweithgareddau Eraill	10%

Rydym yn cytuno bod dadansoddiad manwl o ran tasgau'r cwmni teiran a gweithgareddau rheoli prosiect yn y sylwadau perchnogion datrysiadau yn gysylltiedig â'r datrysiad ac yn adlewyrchu maint y gwaith a wnaed ar gyfer y prosiect.

Pan restrir gweithgareddau 'mewn cwmni' wrth gatiâu yn y dyfodol, efallai y bydd angen manylu ar sut mae'r rhain yn cael eu gwahaniaethu neu eu gwahanu oddi wrth weithgareddau cwmni 'busnes fel arfer'.

Rydym yn cytuno bod yr esboniadau ar gymhlethdod y prosiect yn cyfiawnhau'r gyfran uwch o wariant ar weithgareddau cwmnïau teiran a rheoli prosiect a welwyd ar gyfer STT. Ein penderfyniad terfynol felly yw bod gwariant y cwmni teiran a rheoli prosiectau (cyfanswm o £831,000) yn effeithlon ac yn un a ganiateir.

Cododd rhai perchnogion datrysiadau bryderon yn eu sylwadau ynghylch a fyddai lwfansau gât dau yn ddigonol ar gyfer cwblhau gweithgareddau gât dau ac awgrymu y dylid cario tanwariant gât un ymlaen i gât dau. Roedd y dyraniadau canrannol i bob gât yn ein Penderfyniad Terfynol yn PR19 yn briodol amhenodol ac roeddent yn seiliedig ar ein dealltwriaeth o broffil tebygol y gweithgareddau i'w cyflawni wrth ddatblygu datblygiad ac ymchwiliad i ddatrysiadau gan ystyried cynigion cwmnïau yn hyn o beth. Bellach mae gennym well dealltwriaeth o'r gweithgareddau sydd i'w cynnal wrth gât dau ac rydym o'r farn y bydd yn fuddiol caniatáu i lwfans cyllido na chafodd ei ddefnyddio wrth gât un fod ar gael i berchnogion datrysiadau ar gyfer cynnal gweithgareddau gât dau.

Felly rydym wedi penderfynu uno lwfansau gât un a gât dau lwfans ar gyfer y datrysiad hwn. Bydd hyn yn caniatáu i unrhyw danwariant ar weithgareddau gât un gael ei ddefnyddio ar gyfer gweithgareddau gât dau. Byddwn yn parhau i graffu ar wariant i sicrhau ei fod yn briodol ac yn effeithlon. Mae cwmnïau'n parhau i fod yn gyfrifol am reoli risg cost i fodloni gofynion y gât.

4. Crynodeb o asesiad y datrysiad

Tabl 3 Crynodeb o'r penderfyniad terfynol

Eitem argymhelliad	Trosglwyddiad Afon Hafren i Afon Tafwys
Noddwyr y datrysiad	Thames Water, Dŵr Hafren Trent ac United Utilities
A ddylid caniatáu cyllid pellach i'r datrysiad symud ymlaen i gât dau?	Dylid
A oes tystiolaeth bod yr holl wariant yn effeithlon ac y dylid ei ganiatáu?	Oes - gweler Adran 4.2
Cosb cymhelliant cyflawni?	Nac oes
A oes unrhyw newid i drefniadau partneriaid?	Nac oes
A oes angen cynllun gweithredu adfer?	Nac oes

4.1 Dilyniant datrysiad a chyllid i gât dau

Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod y datrysiad yn ffordd a allai fod yn werthfawr ar gyfer cyflenwi dŵr i gwsmeriaid. Yn seiliedig ar ein hasesiad o gost a budd y datrysiad posibl, rydym wedi dod i'r casgliad y dylai'r datrysiad symud ymlaen trwy'r broses gatiâu i gât dau, ac y dylid caniatáu cyllid pellach.

Rydym wedi penderfynu uno lwfansau gât un a gât dau. Mae hyn yn arwain at gyfanswm lwfans o £12.635 miliwn ar gael wrth gât dau. Mae cwmnïau'n parhau i fod yn gyfrifol am reoli risg cost i fodloni gofynion y gât.

4.2 Tystiolaeth o wariant effeithlon

Nododd penderfyniad terfynol PR19 y bydd unrhyw wariant ar weithgareddau y tu allan i'r gweithgareddau gatiâu ar gyfer y datrysiadau a nodwyd (neu'r datrysiadau sy'n trosglwyddo i mewn) yn cael eu hystyried yn aneffeithlon ac yn cael eu dychwelyd i gwsmeriaid. Byddwn yn ystyried a yw gweithgaredd gatiâu yn effeithlon trwy ystyried perthnasedd, amseroldeb, cyflawnrwydd ac ansawdd y cyflwyniad a ddylai gael ei gefnogi gan feincnodi a sicrwydd.

Mae ein hasesiad o'r costau effeithlon fel y'u gwariwyd ar weithgareddau gât un yn arwain at lwfans ar gyfer y datrysiad hwn o £4.014 miliwn (o £4.014 miliwn a hawliwyd). Dyma'r gost derfynol wedi'i chysoni.


Felly rydym wedi caniatáu'r swm llawn a hawliwyd ar gyfer gât un.

4.3 Ansawdd y cyflwyniad

Nod yr asesiad oedd penderfynu a wnaed cynnydd priodol tuag at gyflawni'r datrysiad. Rydym yn cydnabod ar y cam hwn y gall datrysiadau fod ar wahanol gamau datblygu ac mae'r asesiad yn rhoi ystyriaeth i hyn.

Mae Ffigur 2 yn dangos ein hasesiad o'r gwaith a gwblhawyd ar y datrysiad, a gyflwynwyd yn y cyflwyniad. Cynhaliwyd ein hasesiad yn erbyn y meini prawf cadernid, cysondeb ac ansicrwydd i raddio pob maes o'r cyflwyniad fel un da, boddhaol neu wael yn unol â'n [canllawiau a gyhoeddwyd ar 22 Chwefror 2021](#)⁵. Rydym hefyd wedi asesu sicrwydd y Bwrdd a ddarparwyd.

Ffigur 2 – Asesiad o Gyflwyniadau



Ein hasesiad cyffredinol ar gyfer cyflwyniad y datrysiad yw ei fod yn foddhaol (yn brin o'r disgwyliadau mewn rhai meysydd).

Rydym wedi penderfynu peidio â gosod cosb cymhelliant cyflawni bosibl. Mae hyn yn adlewyrchu bod cynnydd gyda'r datrysiad hwn yn brin o'r disgwyliadau mewn rhai meysydd, ond bod hyn wedi'i gyfyngu'n bennaf i'r maes asesiad amgylcheddol a gwerthusiad y maes asesiad cost a budd, ac yn ein barn ni nid yw'n tansellio ansawdd y cyflwyniad yn gyffredinol. Rydym o'r farn mai'r ffordd orau o fynd i'r afael â'r diffygion ym maes asesiad amgylcheddol yw defnyddio gweithredu ac argymhellion penodol wedi'u curadu i gyfarwyddo a rhoi ffocws i'r gwaith a wneir ar gyfer gât dau, gweler adran 4 a'r atodiad i'r ddogfen hon. Byddwn yn monitro ymgorfforiad y camau hyn i'r blaenraglen datrysiadau trwy gyfarfodydd gwirio rheolaidd.

⁵ <https://www.ofwat.gov.uk/publication/rapid-strategic-regional-water-resource-solutions-guidance-for-2021/>

Mae rhagor o fanylion am ein hasesiad i'w gweld isod.

4.3.1 Cynllun y Datrysiad

Ystyriodd ein hasesiad o gynllun y datrysiad ansawdd y dystiolaeth a ddarparwyd ar y datrysiad cychwynol a'r opsiynau; y defnydd gweithredol disgwylidig o'r datrysiad; rhyngweithiad y datrysiad â datrysiadau adnoddau dŵr arfaethedig eraill ac ymgysylltiad â rhanddeiliaid a chwsmeriaid. Ystyriodd yr asesiad hefyd a ddarparwyd gwybodaeth am gyddestun safle'r datrysiad o fewn cynlluniau cwmni, rhanbarthol a chenedlaethol.

Rydym o'r farn bod cynnydd ac ansawdd y cyflwyniad wrth ddatblygu cynllun y datrysiad yn gât un wedi bod yn dda. Roedd y cyflwyniad yn dal i fod yn brin o'r disgwyliadau mewn rhai elfennau asesu penodol, gan gynnwys aliniad â datrysiadau adnoddau strategol eraill a allai fod o fudd neu yr effeithiwyd arnynt yn y de ddwyrain, a diffyg ymgysylltiad â rhanddeiliaid penodol a lleol, gan gynnwys y rheini yng Nghymru.

Ymhlith y themâu allweddol ar gyfer gât dau mae mireinio ymhellach y ddealltwriaeth a'r dystiolaeth y tu ôl i ddefnyddio'r datrysiad, ac archwilio cyfleoedd o ran defnydd gyda thrydydd partion (e.e. gyda Phartneriaeth River Severn, fel y cydnabyddir yn y cyflwyniad). Bydd ymgorffori'r defnydd wedi'i ddiweddarau mewn asesiadau amgylcheddol yn cynorthwyo i nodi effeithiau amgylcheddol penodol, a hefyd yn galluogi mireinio costau gweithredol datrysiadau.

4.3.2 Gwerthusiad Cost a Budd

Ystyriodd ein hasesiad o'r gwerthusiad cost a budd ansawdd y wybodaeth a ddarperir ar gostau datrysiadau cychwynol; y gost a'r budd cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd, budd adnoddau dŵr a budd gwytnwch ehangach. Ystyriodd yr asesiad hefyd a ddarparwyd tystiolaeth ynglŷn â sut mae'r datrysiad yn sicrhau canlyniad gwerth gorau i gwsmeriaid a'r amgylchedd.

Rydym o'r farn bod cynnydd ac ansawdd gwerthuso cost a budd y datrysiad yn gât un wedi bod yn foddhaol. Roedd y cyflwyniad yn brin o'r disgwyliadau mewn rhai meysydd, gan gynnwys tystiolaeth asesu cost a budd, oherwydd diffyg manylder mewn aliniad â gofynion deddfwriaethol Cymru, a diffyg cynnwys cost a budd cymdeithasol ac o ran amwynderau. Roedd y cyflwyniad hefyd yn brin o'r disgwyliadau ar gyfer ystyried budd gwytnwch ehangach y datrysiad a'i ddau opsiwn llwybr, y tu hwnt i wytnwch y datrysiad. Roedd y cyflwyniad hefyd yn brin o ddarparu asesiad gwerth gorau llawn a oedd yn trafod ac yn cymharu'n ddigonol y ddau opsiwn llwybro ar gyfer y datrysiad. Ni wnaeth y drafodaeth gwerth gorau chwaith ystyried yn llawn yr holl ddatrysiadau galluogi cyflenwi ar gyfer y Trosglwyddiad Hafren i Tafwys.

Dylai themâu allweddol ar gyfer gwaith gât dau hefyd fod i fodelu'n uwch y datrysiad, gan gynnwys diweddarau tybiaethau modelu y tu ôl i lifoedd heb gefnogaeth Afon Hafren gan mai isel yw ein hyder yn y sail tystiolaeth presennol. Rydym yn cydnabod bod y cyflwyniad yn tynnu sylw at waith ychwanegol sydd i'w wneud yn y maes hwn ar gyfer gât dau.

4.3.3 Rhaglen a Chynllunio

Ystyriodd ein hasesiad o'r rhaglen a'r cynllunio a oedd Thames Water, Dŵr Hafren Trent ac United Utilities wedi cyflwyno rhaglen a oedd â cherrig milltir allweddol ac a yw ar y trywydd iawn i'w chyflawni. Ystyriodd yr asesiad hefyd ansawdd y wybodaeth a ddarparwyd ynglŷn â risgiau a materion ar gyfer datblygu datrysiadau, y strategaeth llwybr caffael a chynllunio a gweithgareddau gatiâu dilynol gyda chanlyniadau, meini prawf asesu cosb a chymhellion.

Rydym o'r farn bod cynnydd ac ansawdd y cyflwyniad ynglŷn â'r rhaglen a chynllunio, risgiau a materion a'r strategaeth llwybr caffael a chynllunio ar gyfer trosglwyddiad Afon Hafren i Afon Tafwys yn gât un wedi bod yn dda. Roedd y cyflwyniad yn brin o'r disgwyliadau mewn rhai meysydd, gan gynnwys deall yn llawn y risgiau o rwystrau rheoleiddio posibl, yn enwedig yn deillio o'r Asesiad Rheoleiddio Cynefinoedd. Amlygir y risg hon hefyd yn adran yr Amgylchedd isod.

4.3.4 Yr Amgylchedd

Ystyriodd ein hasesiad o'r amgylchedd yr asesiad amgylcheddol cychwynnol; nodi risgiau amgylcheddol ac amlinelliad o fesurau lliniaru posibl; y rhaglen waith fanwl a ddefnyddir i fynd i'r afael â gofynion asesiad amgylcheddol a'r amlinelliad cychwynnol o sut y bydd y datrysiad yn ystyried yr ymrwymadau carbon.

Rydym o'r farn bod cynnydd ac ansawdd y gwaith a gyflwynwyd yn y cyflwyniad gât un yn y maes hwn yn foddhaol, fodd bynnag roedd y cyflwyniad yn brin o'r disgwyliadau mewn rhai meysydd. Mae hyn yn cynnwys maint y dystiolaeth mewn asesiadau amgylcheddol i ddeall effeithiau a risgiau amgylcheddol, a maint cynlluniau monitro i fynd i'r afael â'r ddealltwriaeth hon.

Yn benodol, nid yw'r cyflwyniad gât un yn adlewyrchu'r heriau a'r risgiau y mae'r datrysiad yn eu hwynebu o ran cydymffurfio â'r Rheoliadau Cynefinoedd, gan nad oes tystiolaeth ddigonol ar hyn o bryd i ddod i'r casgliad nad oes unrhyw effaith sylweddol ar integredd Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Aber Afon Hafren a'i chynefin cysylltiedig. Yn gât dau, mae angen i'r datrysiad ymchwilio'n llawn yr effeithiau amgylcheddol, y risg a'r mesurau lliniaru posibl sydd eu hangen. Dylai hyn gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i: yr effaith ar integredd ACA Aber Afon Hafren; yr effaith ar statws corff dŵr a mesurau o dan Reoliad yr Amgylchedd Dŵr (Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) 2017; colledion llif; ac mewn cyfuniad asesiad effaith â chynlluniau a rhaglenni eraill. Efallai y bydd angen monitro ychwanegol ar Aber Afon Hafren,

cynefinoedd cysylltiedig a Hafren ac Afon Tafwys ganol hefyd. Dylai asesiadau amgylcheddol hefyd sicrhau cydymffurfiaid â Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae camau ac argymhellion penodol wedi'u darparu ar gyfer hyn yn yr atodiad i'r ddogfen hon, ac maent yn cael eu monitro trwy gyfarfodydd gwirio rheolaidd.

4.3.5 Ansawdd Dŵr Yfed

Roedd ein hasesiad o ansawdd dŵr yfed yn ystyried ansawdd dŵr yfed ac asesiadau risg; tystiolaeth bod y datrysiad wedi'i drafod gyda'r tîm ansawdd dŵr yfed a chynllun ar gyfer gwaith yn y dyfodol i ddatblygu Cynlluniau Diogelwch Dŵr Yfed (DWSPs).

Rydym o'r farn bod y wybodaeth a ddarparwyd yn y cyflwyniad hwn ar risgiau ansawdd dŵr yfed, ymgysylltu â rhanddeiliaid a DWSPs ar gyfer gât un yn dda, Disgwyliwn weld datblygiad pellach DWSPs, monitro ansawdd dŵr, gan gynnwys halogion sy'n dod i'r amlwg, ac ymgysylltiad ehangach â rhanddeiliaid â deialog barhaus gyda'r timau ansawdd dŵr priodol yn gât dau.

4.3.6 Datganiad y Bwrdd a Sicrwydd

Aseswyd bod y dystiolaeth a ddarparwyd mewn perthynas â sicrwydd yn dda.

Mae'r noddwyr datrysiadau wedi darparu datganiadau Bwrdd sy'n nodi:

- eu cefnogaeth i argymhellion y cyflwyniad ar gyfer dilyniant y datrysiad / opsiwn;
- eu bod yn fodlon bod y cynnydd o ran y datrysiad yn gymesur â bod y datrysiad yn barod i'w adeiladu ar gyfer 2025-30;
- eu bod yn fodlon bod y gwaith a wnaed hyd yma yn ddigonol o ran cwmpas, manylder ac ansawdd fel y byddai disgwyl ar gyfer prosiect seilwaith mawr o'r math hwn ar hyn o bryd; a
- bod gwariant wedi'i gael ar weithgareddau sy'n briodol ar gyfer gât un a'i fod yn effeithlon.

I gyd-fynd â'r datganiadau hyn mae esboniad o'r dull ar gyfer sicrwydd a disgrifiad o'r dystiolaeth a'r wybodaeth y mae'r Byrddau wedi dibynnu arnynt wrth roi'r datganiadau.

5. Newidiadau arfaethedig i drefniadau partneriaid

Nid oes unrhyw newidiadau arfaethedig i drefniadau partneriaid.

6. Camau gweithredu ac argymhellion

Lle bo cyflwyniad wedi'i asesu fel un sydd ddim yn 'bodloni disgwyliadau' rydym wedi rhoi adborth ar ble y byddwn yn ceisio adfer y problemau. Rydym hefyd wedi nodi camau penodol y dylai perchnogion datrysiadau eu cymryd wrth baratoi ar gyfer gât dau.

Rydym wedi categorio'r materion adfer a'r camau hyn yn gamau gweithredu blaenoriaeth, camau gweithredu ac argymhellion.

Camau gweithredu blaenoriaeth yw'r rhai y dylid fod wedi'u cwblhau yn gât un ac mae'n rhaid mynd i'r afael â nhw nawr mewn cyfnod byr er mwyn sicrhau bod y datrysiadau yn aros ar y trywydd iawn. Mae angen adferiad brys arnynt yn llawn ac am y rheswm hwn maent yn uniongyrchol gysylltiedig â'r asesiad o gymhellion cyflawni a nodir yn y cyhoeddiad hwn. Bydd yr ymateb i'r camau gweithredu blaenoriaeth yn penderfynu a osodir cymhelliant cyflawni; ac i ba raddau y gall noddwyr y datrysiadau liniaru'r cymhellion cyflawni. Os cwblheir yr holl gamau gweithredu blaenoriaeth yn foddhaol yna ni osodir y gosb. Os na chaiff un neu fwy o gamau gweithredu blaenoriaeth eu cwblhau'n foddhaol yna gosodir y gosb gyfan.

Rydym hefyd wedi nodi camau gweithredu y dylid mynd i'r afael â hwy'n llawn yng nghyflwyniad gât dau. Bydd yr ymateb i'r camau gweithredu hyn yn dylanwadu ar yr asesiad o gyflwyniad gât dau.

Mae argymhellion yn faterion lle gallai gwybodaeth neu eglurhad ychwanegol wella ansawdd cyflwyniadau yn y dyfodol.

Ni nodwyd unrhyw gamau gweithredu blaenoriaeth ar gyfer trosglwyddiad Afon Hafren i Afon Tafwys, felly nid ydym yn ei gwneud hi'n ofynnol i noddwyr y datrysiadau baratoi cynllun gweithredu adfer i ni. Mae'r rhestr lawn o gamau weithredu ac argymhellion eraill i'w gweld yn yr Atodiad.

7. Gweithgareddau gât dau

Bydd y datrysiad yn parhau i gael ei gyllido i gât dau fel rhan o'r llwybr gât safonol.

Ar gyfer ei gyflwyniad gât dau, rydym yn disgwyl i Thames Water, Dŵr Hafren Trent ac United Utilities gwblhau'r gweithgareddau a restrir ym [mhenderfyniadau terfynol PR19: atodiad datrysiadau adnoddau dŵr rhanbarthol strategol](#) fel yr ymhelaethir arnynt yn Adran 15 ei gyflwyniad gât un.

8. Cymhellion ar gyfer gât dau

Ar gyfer gât dau rydym yn cynnal yr un trefniadau ar gyfer cymhellion ag a gymhwyswyd yn gât un - hynny yw, cosb uchaf o 30% o gyfanswm cyllid gât effeithlon y cwmni y gellid ei gymhwyso i ddatrysiadau nad ydynt wedi gwneud cynnydd digonol, pan nad yw ansawdd y gwaith yn ddigon da, neu os yw'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno yn cael ei fethu.

Bydd cosbau yn cael eu penderfynu fesul achos gan ystyried:

- lefel y cyflawnrwydd ac ansawdd cyffredinol y gwaith a wneir wrth ymchwilio a datblygu'r datrysiad yn seiliedig ar y dystiolaeth a grynhoir yn y cyflwyniad;
- y dystiolaeth a'r cyfiawnhad a ddarperir lle nad yw agweddau ar y gwaith a wneir yn cyrraedd y disgwyliadau; ac
- yr effaith ar benderfyniadau a darpariaeth datrysiadau, gan gynnwys i ba raddau y mae diffygion yn effeithio'n andwyol ar gwsmeriaid.


Bydd cosbau yn cael eu gweithredu trwy fecanwaith cysoni PR24, fel y disgrifir ym ['Mhenderfyniadau terfynol PR19: Datrysiadau adnoddau dŵr strategol'](#).

Ni fydd cyfle i adfer diffygion a nodwyd yn yr asesiad er mwyn gohirio cosbau.

Atodiad: Camau Gweithredu ac Argymhellion

Camau gweithredu – i fynd i'r afal â hwy yng nghyflwyniad gât dau		
Nifer	Adran	Manylion
1	Cynllun y Datrysiad	Sicrhau bod rhanddeiliaid a chwsmeriaid Cymru yn cael eu cynnwys mewn ymgysylltiad penodol i ddatrysiad
2	Cost a Budd	Mae angen gwaith pellach ar elfennau o'r datrysiad sy'n effeithio ar wytnwch ecosystem Cymru. Bydd hyn yn sicrhau rheolaeth gynaliadwy ar adnoddau naturiol yn ogystal â helpu i gyflawni nodau a nodir yn Neddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Rhaid i unrhyw gynnig sydd â goblygiadau i Gymru fodloni gofynion y Ddeddf hon a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Mae hyn yn ychwanegol at y gofynion enillion net cyfalaf naturiol a bioamrywiaeth ar gyfer Lloegr.
3	Cost a Budd	Cyflwyno canlyniadau asesiadau gwytnwch y datrysiad mewn dogfennau cyflwyniad, gan ganolbwyntio ar gymariaethau rhwng yr opsiynau llwybro. Ymchwilio budd amlsector y gallai'r datrysiad ei ddarparu. Mae angen i'r datrysiad hefyd ystyried y budd i Gymru fel sy'n ofynnol o dan ddeddfwriaeth Cymru.
4	Rhaglen a Chynllunio	Dangos dealltwriaeth lawn o'r risgiau i'r datrysiad gan rwystrau rheoleiddio posibl, mae hyn yn cynnwys risgiau a materion sy'n gysylltiedig â'r Rheoliadau Cynefinoedd.
5	Yr Amgylchedd	Sicrhau bod asesiadau amgylcheddol yn cydymffurfio â Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
6	Yr Amgylchedd	Ymchwilio i effaith y datrysiad ar integreidd Ardal Cadwraeth Arbennig Aber Afon Hafren.
7	Yr Amgylchedd	Dangos y berthynas rhwng lleihau carbon, ymrwymadau sero net y sector a dewisiadau o ran cynllunio a chyfenwi'r datrysiad. Dangos dulliau a ddefnyddir ar gyfer cyfrifo carbon, gan ystyried fframwaith a chanllawiau polisi cenedlaethol.
Argymhellion		
Nifer	Adran	Manylion
1	Cynllun y Datrysiad	Sicrhau bod y berthynas â derbyn SROs yn y de ddwyrain yn cael ei rheoli'n agos, a bod y dull o gyfathrebu budd pob datrysiad yn cyd-fynd (er enghraifft â SESRO).

2	Cynllun y Datrysiad	Datblygu cynllun ymgysylltu â rhanddeiliaid, gan gynnwys rhanddeiliaid ehangach a lleol, unwaith bod penderfyniad wedi'i wneud ar y llwybr a ffefrir.
3	Cost a Budd	Integreiddio ymhellach werthoedd cymdeithasol ac amwynderau mewn asesiad cost a budd y datrysiad. Darparu manylion ar y gwaith sy'n cael ei wneud i gadw at ddeddfwriaeth Cymru.
4	Cost a Budd	Archwilio ymhellach ansicrwydd wrth fodelu Allbwn Defnyddiadwy yn dilyn allbynnau modelu Adnoddau Dŵr y De Ddwyrain ac adeiladu model trosglwyddiad Afon Hafren i Afon Tafwys, gan gynnwys tybiaethau llif heb gefnogaeth y datrysiad. Rydym yn cydnabod bod hyn yn cael ei ymgorffori yng ngweithgareddau gât dau.
5	Cost a Budd	Ymchwilio a chyflwyno budd gwytnwch ehangach posibl y datrysiad, y tu hwnt i wytnwch y datrysiad ei hun, hyd yn oed os yw'r cyfleoedd hyn wedi'u cyfyngu gan y math o ddatrysiad.



Ofwat
Centre City Tower
7 Hill Street
Birmingham B5 4UA

Phone: 0121 644 7500
Fax: 0121 644 7533

© Crown copyright 2022

This publication is licensed under the terms of the Open Government Licence v3.0 except where otherwise stated. To view this licence, visit nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3.

Where we have identified any third party copyright information, you will need to obtain permission from the copyright holders concerned.

This document is also available from our website at www.ofwat.gov.uk.

Any enquiries regarding this publication should be sent to mailbox@ofwat.gov.uk.

OGI